CCDC Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru
DIAW Digital Inclusion Alliance Wales


# Archwilio Effaith


## Blaenoriaeth 1: Gwreiddio cynhwysiant digidol ar draws pob sector


## Mawrth 2024


# Canlyniadau meintiol o'r arolwg


- Cafwyd 23 o ymatebion i'r arolwg.
- Cytunodd 70% o’r ymatebwyr fod Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Strategaeth Ddigidol i Gymru yn cwmpasu’r canlyniadau o Agenda Cynhwysiant Digidol CCDC.
- Roedd ymwybyddiaeth o sut mae cynhwysiant digidol yn cyfrannu at saith Nod Llesiant cenedlaethol Cymru yn uchel, gydag 87% o ymatebwyr yn cytuno.
- Roedd 65% o ymatebwyr yn cytuno bod cynhwysiant digidol defnyddwyr gwasanaeth a staff yn cael ei wreiddio fel elfen graidd o holl brosiectau trawsnewid digidol y sector cyhoeddus.
- Cymysg oedd yr ymatebion i'r cwestiwn am y sector cyhoeddus yn helpu i fynd i'r afael ag allgáu digidol, gyda 52% yn cytuno ond 34% yn ansicr.
- Roedd yr hyder bod CCDC wedi cael effaith gadarnhaol ar sefydliadau yn gwreiddio cynhwysiant digidol yn uchel, gyda 96% yn cytuno â'r cwestiwn hwn.
- Mae 78% o ymatebwyr yn perthyn i grwpiau lle maent yn trafod gwreiddio cynhwysiant digidol mewn sefydliadau.





Rwy'n ymwybodol o sut mae cynhwysiant digidol yn cyfrannu at saith Nod Llesiant cenedlaethol Cymru o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) Cymru.
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn gwybod
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf


Mae cynhwysiant digidol defnyddwyr gwasanaeth a staff wedi'i wreiddio fel elfen graidd o holl brosiectau trawsnewid digidol y sector cyhoeddus.
14
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn gwybod
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf


Mae'r sector preifat, gan gynnwys darparwyr cyfathrebiadau, busnesau bach a chanolig a microfusnesau, yn helpu i fynd i'r afael ag allgáu digidol ledled Cymru.
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn gwybod
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf


Mae Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar sefydliadau sy'n gwreiddio cynhwysiant digidol yng Nghymru.
14
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn gwybod
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf

Ydych chi'n aelod o unrhyw fyrddau/partneriaethau/grwpiau lle rydych chi'n trafod gwreiddio cynhwysiant digidol mewn sefydliadau neu sectorau?



# Dadansoddi cynnwys dogfennau polisi a strategaeth

- Chwiliwyd drwy ddogfennau am y termau allweddol: cynhwysiant digidol, allgáu digidol, Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, cysylltedd (digidol), hygyrchedd (digidol), sgiliau (digidol) a gwreiddio (digidol).
- Crëwyd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan ddwyn ynghyd arweinwyr o'r awdurdod lleol, bwrdd iechyd, awdurdod tân ac achub, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru, yr heddluoedd, y comisiynydd heddlu a throseddu a'r gwasanaethau prawf.
- Mae'n ofynnol iddynt asesu cyflwr llesiant yn lleol, gosod amcanion a chynhyrchu cynllun i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal leol, gan gynyddu eu cyfraniad at y nodau llesiant i'r eithaf.
- Yn 2023, cyhoeddodd y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ddeg Gynlluniau Llesiant newydd, gan nodi eu hamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf.
- Yn gyffredinol, ychydig iawn o ffocws sydd gan y Cynlluniau Llesiant ar gynhwysiant digidol, gan godi'r cwestiwn a yw'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn gwbl ymwybodol o gyfraniad dinasyddion at y saith nod llesiant cenedlaethol, pan fyddant yn cael eu cynnwys yn ddigidol.

| | Cynhwysiant Digidol | Allgáu Digidol | Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru | Cysylltedd (Digidol) | Hygyrchedd (Digidol) | Sgiliau (Digidol) | Gwreiddio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Ddigidol i Gymru, Llywodraeth Cymru (2021) | 14 | 5 | 0 | 21 | 4 | 40 | 2 | 77 |
| Strategaeth Ddigidol i Gymru: Cynllun Cyflawni, Llywodraeth Cymru (2021) | 2 | 1 | 0 | 7 | 0 | 14 | 0 | 23 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a 2023-28 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd 2023-28 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr 2023-28 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd | 0 | 0 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 7 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2023-28 | | | | | | | | |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023-28 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg 2023-28 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam 2023-28 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent 2023-28 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot 2023-28 | 3 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 | 6 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro 2023-28 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys 2023-28 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 5 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2023-28 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 5 |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg 2023-28 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |

# Astudiaethau Achos

**Astudiaeth Achos – Mirus Wales**
**Sorin Annuar – Cydgysylltydd Technoleg**

**Dywedwch wrthyf yn fyr am y gwaith rydych yn ei wneud i wreiddio cynhwysiant digidol yn eich sefydliad**
Mae cefnogaeth yn cael ei rhoi gan ystyried y mater fesul achos, gan ganolbwyntio ar anghenion unigolion, a sicrhau bod gan staff y sgiliau digidol sydd eu hangen arnyn nhw i ymgysylltu â'r systemau a'r prosesau sy'n angenrheidiol ar gyfer eu gwaith ond hefyd am oes. Pan fydd darn newydd o dechnoleg yn cael ei osod mewn lleoliad, mae'n hanfodol sicrhau bod gan y staff y set sgiliau i'w ddefnyddio a deall sut mae'n gweithredu. Er enghraifft, mae ap newydd yn cael ei gyflwyno i staff ar gyfer rheoli amser a phrosesau eraill y bydd angen i bob aelod o staff ei ddefnyddio, felly mae gan y Tîm Dysgu a Datblygu raglen gyflwyno fesul cam ar waith sy'n cynnwys sicrhau bod gan staff y sgiliau digidol i wneud eu gwaith. Mae Mirus Wales hefyd wedi cynnal hyfforddiant Hyrwyddwyr Digidol mewn partneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru fel bod aelodau staff yn gallu cefnogi eu cydweithwyr.

**Pa ganlyniadau Blaenoriaeth 1 o'r 'Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch 2il Argraffiad' ydych chi'n meddwl y mae'n gweithio tuag atynt?**
*Adeiladau ar waith sydd eisoes wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o sut mae cynhwysiant digidol yn cyfrannu at bob un o'r saith Nod Llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru. – Ydych chi'n ymwybodol o sut mae'r gwaith rydych chi'n ei wneud i wreiddio cynhwysiant digidol yn cyfrannu at y saith Nod Llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru?*
Mae gwreiddio cynhwysiant digidol mewn prosiectau trawsnewid digidol yn helpu gyda Chymru sy'n Fwy Cyfartal a Chymunedau Cydlynus. Er enghraifft, yn ogystal ag uwchsgilio staff, mae Mirus Wales yn rhedeg caffi technoleg mewn llyfrgell gyda Home Instead yn Abertawe i gefnogi pobl hŷn â sgiliau digidol am oes, gan dyfu eu hannibyniaeth ac ansawdd eu bywyd.

*Cynhwysiant digidol defnyddwyr gwasanaeth a staff yn elfen greiddiol o holl brosiectau trawsnewid digidol y sector cyhoeddus. – A yw eich sefydliad yn cynnwys cynhwysiant digidol defnyddwyr gwasanaeth a staff fel elfen greiddiol o bob prosiect trawsnewid digidol?*
Dyma'n union mae'r rhaglen waith yn canolbwyntio arno, gan sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i wneud eu gwaith. Daw enghraifft arall o hyn gan ddau unigolyn a oedd gynt yn achos Mirus Wales ac sydd bellach yn gweithio i'r sefydliadol fel Llysgenhadon. Cawsant eu cefnogi i ennill y sgiliau digidol roedd eu hangen arnyn nhw i wneud hyn, fel rheoli e-byst, mynychu cyfarfodydd ar-lein, a defnyddio rhaglenni Microsoft.

*Camau pellach i fynd i'r afael ag allgáu digidol ar draws Cymru gan y sector preifat, gan gynnwys darparwyr cyfathrebu, BBaCh a microfusnesau. - Beth arall ydych chi'n meddwl y gallai'r sector*

*preifat, gan gynnwys darparwyr cyfathrebiadau, fod yn ei wneud i fynd i'r afael ag allgáu digidol ledled Cymru?*
Mae Mirus Wales yn gweithio gyda BT OpenReach i gysylltu WiFi i bob tŷ. Mae problemau wedi bod lle nad yw offer hŷn, fel ffonau analog arbenigol gyda nodweddion hygyrchedd fel botymau mwy, yn cyd-fynd â'r newid i ddigidol, sydd wedi achosi problemau sydd angen sylw.

**Sut mae bod yn rhan o CCDC wedi helpu'r prosiect penodol hwn?**
Mae mor dda cael persbectif a dod i wybod am sefyllfa sefydliadau eraill a beth maen nhw'n ei wneud. Mae aelodau'r rhwydwaith yn barod iawn i siarad ac yn gefnogol yn yr ystafelloedd trafod, ac mae'n help mawr.

---

**Astudiaeth Achos – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**
**Tristan Fareel – Rheolwr Newid Busnes ac Elin Griffiths – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rhaglenni Digidol**

**Dywedwch wrthyf yn fyr am y gwaith rydych chi'n ei wneud i wreiddio cynhwysiant digidol yn eich sefydliad**
Mae 'Strategaeth Ddigidol: 2033' Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynnwys Cynhwysiant Digidol fel un o chwe thema graidd. Dros yr wyth mis diwethaf, mae'r addewidion unigol o'r Siarter Cynhwysiant Digidol wedi llywio amrywiaeth o brosiectau peilot cynhwysiant, gan lunio'r glasbrint ar gyfer thema Cynhwysiant Digidol a'n helpu i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol a fydd yn cefnogi uwchsgilio ein cydweithwyr, ein cleifion a'n rhoddwyr.

Roedd y prosiectau peilot yn cynnwys nodi meysydd o'r gwasanaeth a fyddai'n elwa ar adolygu rhai problemau/materion a gafwyd fel rhan o brosesau neu ddulliau gweithio cyfredol. Lluniwyd datganiadau problem ac yna gwahoddwyd staff y gwasanaeth i sesiwn mapio/ailgynllunio gwasanaeth a oedd yn ystyried pwyntiau problemus presennol a chyfleoedd i wella. Mae cyfeirio at yr addewidion fel rhan o bob prosiect peilot wedi helpu i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei wreiddio a'i fabwysiadu ym mhob un o'r gwelliannau i'r gwasanaeth a ffyrdd digidol newydd o weithio.

**Pa ganlyniadau Blaenoriaeth 1 o'r 'Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch 2il Argraffiad' ydych chi'n meddwl y mae'n gweithio tuag atynt?**

*Adeiladau ar waith sydd eisoes wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o sut mae cynhwysiant digidol yn cyfrannu at bob un o'r saith Nod Llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru. – Ydych chi'n ymwybodol o sut mae'r gwaith rydych chi'n ei wneud i wreiddio cynhwysiant digidol yn cyfrannu at y saith Nod Llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru?*
Mae ystyried nodau 'llesiant' cydweithwyr yr Ymddiriedolaeth, ein cleifion a'n rhoddwyr wedi bod yn flaenllaw yn rhaglen Dyfodol Canolfan Ganser Felindre, rhaglen Dyfodol 5 mlynedd Gwasanaeth

Gwaed Cymru a'r cynlluniau datblygu ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre. Ar gyfer y Ganolfan Ganser, mae cyfle sylweddol i lywio ac effeithio ar newid mawr yn ein darpariaeth gwasanaeth a'r holl wasanaethau sy'n delio â chleifion. Trwy uwchsgilio ein cydweithwyr mewnol, a hyrwyddo hygyrchedd a derbynioldeb ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud, rydyn ni'n sicrhau bod cleifion a rhoddwyr yn cael eu cefnogi i symud o ymylon allgáu, i'r canol – lle mae cydraddoldeb a chynhwysiant digidol yn ystyriaeth allweddol. Drwy osod cleifion a rhoddwyr yng nghanol ein gwasanaethau, mae eu cynlluniau triniaeth a gofal, a'u llwybr rhoi a derbyn gwaed yn debygol o sicrhau canlyniadau gwell. Mae galluogi a chyd-gynhyrchu yn y modd hwn yn meithrin hyder a lefel uwch o ddealltwriaeth o sut maen nhw'n cael mynediad i'n gwasanaethau a pha wasanaethau yw'r rhain.

*Cynhwysiant digidol defnyddwyr gwasanaeth a staff yn elfen greiddiol o holl brosiectau trawsnewid digidol y sector cyhoeddus. – A yw eich sefydliad yn cynnwys cynhwysiant digidol defnyddwyr gwasanaeth a staff fel elfen greiddiol o bob prosiect trawsnewid digidol?*
Mae cynhwysiant digidol yn ystyriaeth sydd wrth wraidd yr holl weithgarwch newid yn yr Ymddiriedolaeth. Mae ein timau Gwasanaethau Digidol wedi blaenoriaethu ein gweithlu (cydweithwyr), yn weinyddol a chlinigol, gan ein bod yn cydnabod y byddan nhw yn eu tro yn gallu cefnogi uwchsgilio digidol a chamau galluogi ein cleifion, rhoddwyr, gofalwyr a chymunedau ehangach. Boed yn gweithredu system glinigol radiotherapi genedlaethol neu'n datblygu ap symudol newydd ar gyfer cleifion cemotherapi, mae ein dull datganiad problem/mapio gwasanaeth yn ystyried tlodi data, sgiliau digidol, a mynediad at ddyfeisiau/wi-fi/data symudol. Mae 26 o arweinwyr digidol, ar draws 8 tîm gwasanaeth wedi cael eu huwchsgilio gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, gan sicrhau bod ein hymagwedd at brosesau dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn gadarn, yn gyson ac yn gynhwysol. Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio tuag at fframwaith sy'n canolbwyntio mwy ar y defnyddiwr, a fydd yn darparu'r glasbrint ar gyfer newidiadau bach, mynych i'w gwasanaethau, sydd ym mherchnogaeth defnyddwyr ein gwasanaethau ac yn cael eu llywio ganddynt.

*Camau pellach i fynd i'r afael ag allgáu digidol ar draws Cymru gan y sector preifat, gan gynnwys darparwyr cyfathrebu, BBaCh a microfusnesau. - Beth arall ydych chi'n meddwl y gallai'r sector preifat, gan gynnwys darparwyr cyfathrebiadau, fod yn ei wneud i fynd i'r afael ag allgáu digidol ledled Cymru?*
Mae yna nifer o sefydliadau sy'n dda am wneud hyn ac yn gwneud gwaith gwych. Fodd bynnag, mae yna her gyda chyflenwyr cynhyrchion digidol; oni bai eu bod wedi gweithio gyda GIG Cymru a/neu'r sector cyhoeddus, dydyn nhw ddim bob amser yn ymwybodol o sut mae angen cynnwys cynhwysiant yn natblygiad eu cynhyrchion digidol. Mae 'Awdurdod Dylunio Digidol' yn cael ei sefydlu fel rhan o Strategaeth Ddigidol yr Ymddiriedolaeth, a fydd yn sicrhau bod yn rhaid i bob cyflenwr cynhyrchion a gwasanaethau digidol a'u partneriaid feddu ar y safonau gofynnol ar gyfer seiberddiogelwch, seilwaith, prosesu data a chynhwysiant. Bydd angen i bob cyflenwr y byddwn yn gwneud contract ag ef yn y dyfodol ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau fodloni'r safonau gofynnol hynny.

**Sut mae bod yn rhan o CCDC wedi helpu'r prosiect penodol hwn?**
Mae'r sesiynau CCDC yn addysgiadol a defnyddiol iawn, yn enwedig o ran fy nhywys i'r cyfeiriad cywir ar gyfer pethau sydd angen eu gwneud, yn ogystal â'm cyfeirio at aelodau CCDC sydd ar daith debyg i Felindre neu sy'n profi'r un problemau. Mae rhannu profiadau a rhoi enghreifftiau o'r math o bethau roedden nhw wedi'u gwneud yn eu sefydliadau wedi ein helpu i lunio syniadau a'u gwneud yn berthnasol i gyd-destun Felindre. Mae'n ysbrydoledig cael amcan cyffredin, clywed safbwyntiau eraill a rhannu beth mae pawb yn ei wneud. Ar ôl cyflwyno mewn sesiwn CCDC yn ddiweddar, cysylltodd dau aelod-sefydliad â ni a oedd am gael gwybod mwy am ein gweithgareddau a pha gyfleoedd cydweithio a allai fod ar gael. Mae llawer o sefydliadau yn yr un sefyllfa â ni ac mae'n daith enfawr ar lwybr strategol a thrawsnewidiol. Mae cael y cymysgedd o sefydliadau o wahanol sectorau yn wych, mae'r heriau'n wahanol o fewn pob sector, ond mae'r her yn un gyffredin, o ganlyniad i waith y Gynghrair. Mae cymuned, cydweithio a dysgu yn eiriau allweddol y byddwn yn eu defnyddio i ddisgrifio ein profiad o fod yn rhan o'r Gynghrair. Y gallu i gyfrannu at themâu strategol ac agendâu gwleidyddol cynhwysiant digidol yng Nghymru yw'r rheswm pam ein bod yn parhau i fod yn rhan o weledigaeth a chyfeiriad presennol a gefnogir gan CCDC.

---

**Astudiaeth Achos – ILA-CYMRU CIC (IBERIAID A LLADIN-AMERICANWYR YNG NGHYMRU)**
**Dr Patricia Rodríguez-Martínez Jones - Cyfarwyddwr: Treftadaeth a Chyfathrebu**

**Dywedwch wrthyf yn fyr am y gwaith rydych yn ei wneud i wreiddio cynhwysiant digidol yn eich sefydliad**
Mae ILA Wales CIC yn cefnogi pobl o amrywiaeth o gefndiroedd mewn llawer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys cynhwysiant digidol. Mae cynhwysiant digidol yn rhaglen waith allweddol ar gyfer sefydliadau partner yng Nghanolfan Amlddiwylliannol y Grand yn Abertawe. Yno, gall pawb logi ystafell o'r enw'r Ganolfan Ddigidol sy'n cael ei rhedeg gan Race Council Cymru, lle mae pobl sydd wedi cael hyfforddiant gyda Chymunedau Digidol Cymru yn trosglwyddo sgiliau digidol i eraill. Mae ILA Wales hefyd yn cyfeirio aelodau at lyfrgelloedd lleol ac yn cyfeirio aelodau at hyfforddiant arall, pan fo'n briodol.

Trwy'r Banc Dyfeisiau a'r Banc Data, maen nhw wedi benthyca Chromebooks a ffonau clyfar ar gyfer aelodau. Buon nhw hefyd yn rhedeg prosiect i frwydro yn erbyn tlodi digidol yn ystod pandemig COVID-19 lle defnyddiwyd grant gan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru i ddarparu dyfeisiau llechen i oedolion a theuluoedd â phlant. Mae ILA Wales yn ailddefnyddio'r dyfeisiau hyn, gan eu trosglwyddo i newydd-ddyfodiaid unwaith y bydd y teuluoedd mewn sefyllfa i brynu eu dyfeisiau eu hunain. Mae ILA Wales hefyd yn cefnogi ceiswyr lloches gyda'u hawliadau ac mae'r newid i eVisa ar gyfer hawlio lloches wedi bod yn anodd i rai, ond maen nhw wedi rhoi cymorth ar waith i helpu eu haelodau gyda'r system ar-lein newydd hon, gan gynnwys sesiynau grŵp a chymorth un-i-un pwrpasol.

**Pa ganlyniadau Blaenoriaeth 1 o'r '**[**Agenda ar gyfer Cynhwysiant Digidol: O Gynhwysiant i Wydnwch 2il Argraffiad**]**' ydych chi'n meddwl ei fod yn gweithio tuag atynt?**
*Adeiladau ar waith sydd eisoes wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o sut mae cynhwysiant digidol yn cyfrannu at bob un o'r saith Nod Llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru. – Ydych chi'n ymwybodol o sut mae'r gwaith rydych chi'n ei wneud i wreiddio cynhwysiant digidol yn cyfrannu at y saith Nod Llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru?*
Mae'r byd yn dod yn fwyfwy digidol felly os na allwch chi gysylltu â'r byd digidol, byddwch yn cael eich cau allan o gymdeithas ac felly ni fyddwch yn cyfrannu at y saith nod. Os yw pobl yn ofni technoleg yna maen nhw'n mynd i golli allan ar lawer o gyfleoedd. Mae'r gwaith rydyn ni'n ei wneud ym maes cynhwysiant digidol yn eu helpu i fod yn rhan o bethau.

**Sut mae bod yn rhan o CCDC wedi helpu'r prosiect penodol hwn?**
Mae CCDC wedi darparu mynediad at ddarparwyr hyfforddiant a Rhwydwaith o bobl gefnogol a chyfleoedd i ddysgu pethau newydd. Trwy gael Cynghrair rydych chi'n teimlo eich bod chi'n rhan o grŵp sy'n symud ymlaen i'r cyfeiriad rydyn ni'n ei gefnogi. Rydych chi'n sylweddoli nad oes rhaid i chi wneud popeth, gallwch chi gysylltu ag eraill a chael cefnogaeth. Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd felly rydyn ni'n fwy tebygol o fod yn llwyddiannus yn yr hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni.

Cysylltwch â ni: diaw@cwmpas.coop

Dilynwch ni: @DIAWales